Adroddiad diwedd prosiect Amgueddfeydd Pop-Yp Gwynedd - Prosiect ar y cŷd rhwng Arloesi Gwynedd Wledig a Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd

## Trosolwg

Roedd Pop-Yp y Bobl yn gyfres o ddigwyddiadau am ddim mewn pedair cymuned yng Ngwynedd, sef Deiniolen, Y Rhiw, Blaenau Ffestiniog a Thywyn, o'r 15fed i'r 26ain o Ebrill, 2019.

Pop-Yp y Bobl oedd canlyniad prosiect Amgueddfeydd Pop-Yp Gwynedd, a oedd yn gywaith rhwng Arloesi Gwynedd Wledig a Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd. Bwriad y prosiect oedd i gynnal gweithgareddau mewn sefydliadau ar draws Wynedd a fyddai'n dod â phobl at ei gilydd mewn sgwrs trwy straeon, celf a gwrthrychau yn ystod y gwyliau Pasg. Roedd angen i'r prosiect gynnig cyfleoedd newydd i bobl leol ac ymwelwyr, o bob oed, i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, drwy gynnig rhaglen a oedd yn ennyn diddordeb mewn hanes lleol, treftadaeth a hunaniaeth, ymysg pobl Gwynedd a thu hwnt.

Dewiswyd y bedair gymuned yma gan eu bod:-

1. Ar wasgar yng Ngwynedd
2. Yn gymunedau ble mae difreintiedigaeth yn bodoli
3. Yn gymunedau sydd ddim fel arfer yn cael eu targedu ar gyfer cyfleoedd drwy ddiwylliant a threftadaeth.

Cynhalwyd 19 o ddigwyddiadau, mewn 9 lleoliad gwahanol o fewn y bedair cymuned. Roedd y digwyddiadau'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i fod yn greadigol a dysgu am dreftadaeth a hanes lleol.
Roedd 39 cyfrannwr yn rhan yn o'r amserlen, sy'n cynnwys 27 o blant a phobl ifanc a arddangosodd waith celf.

Cynulleidfa
Teuluoedd oedd cynulleidfa darged gyffredinol Pop-Yp y Bobl. Roedd rhai gweithgreddau'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ac eraill ar gyfer oedolion, ond roedd rhan helaeth o'n rhaglen yn darparu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan gyda'i gilydd.

206 oedd cyfanswm y cyfranogwyr a gymrodd rhan neu fynychodd y digwyddiadau dros gyfnod y Pop-Yp.

| | Deiniolen | Y Rhiw | Blaenau Ffestiniog | Tywyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o ddigwyddiadau | 6 | 4 | 4 | 5 | 19 |
| Nifer o leoliadau | 3 | 1 | 2 | 3 | 9 |
| Nifer o gyfrannwyr | 19 | 4 | 2 | 14 | 39 |
| Nifer o gyfranogwyr | 56 | 81 | 24 | 45 | 206 |

Mewn manylder

Deiniolen
Ebrill 15 a16, 2019
Lleoliadau a ddefnyddwyd - Ysgol Gwaun Gynfi, Caffi EBs
Yn Neiniolen, bu cydweithio agos gyda'r ysgol gynradd, ble cynhaliwyd sesiwn stori, arddangosfa gelf gan fyfyrwyr TGAU Celf Ysgol Brynrefail a stondinau gan asiantaethau. Bu cydweithio hefyd gyda Menter Fachwen a darparodd arddangosfa o ffotograffau hanesyddol o Ddeiniolen yng Nghaffi EBs a dwy daith gerdded hanesyddol.
Elfennau cadarnhaol

- Yr ysgol yn leoliad addas gan ei fod yn hygyrch ac wedi'i leoli ar brif stryd y pentref.
- Roedd staff yr ysgol yn hyblyg, cymwynasgar a chefnogol o'r digwyddiadau.
- Gareth Roberts o Menter Fachwen, sydd â dilyniant yn lleol, wedi denu niferoedd uchel i'r ddwy daith gerdded. Roedd ei arweiniad ar y teithiau yn ddiddorol a hwyliog.
- Bu cefnogaeth frwd gan Adran Gelf Ysgol Brynrefail tra'n trefnu'r arddangosfa gelf, gyda'r pennaeth Celf yn rhoi amser rhydd yn ystod y gwyliau i weithio gyda'r cydgordiwr ar osod yr arddangosfa.
- Bu defnydd effeithiol o Gaffi EBs fel man cychwyn ar gyfer y teithiau cerdded a lleoliad arddangosfa o hen ffotograffau oherwydd roedd yn leoliad poblogaidd ymysg y pentrefwyr ac yn ganolog iawn yn y pentref.

Elfenau negyddol

- Niferoedd isel wedi mynychu'r sesiwn stori gyda Leisa Mererid er gwaetha'r marchnata a dargedodd deuluoedd a oedd yn bwydo'r ysgol gynradd.
- Niferoedd isel wedi dod i weld yr arddangosfa gelf gan fyfyrwyr TGAU Ysgol Brynrefail er gwaetha'r marchnata a dargedodd y myfyrwyr a oedd yn astudio celf.
- Stondin LleChi Cymru yn neuadd yr ysgol gynradd ddim yn cynnig gweithgarwch atyniadol.

Y Rhiw
Ebrill 17 a 18, 2019
Lleoliadau a ddefnyddwyd - Plas yn Rhiw
Roedd holl ddigwyddiadau Y Rhiw wedi'u lleoli ym Mhlas yn Rhiw, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Oherwydd y tywydd ffafriol, defnyddwyd gerddi'r Plas i gynnal digwyddiadau celf gyda Catrin Williams a cherddoriaeth gydag Iwan Huws, i gyd wedi'u ysbrydoli gan y môr. Roedd hefyd yn fan cychwyn i daith gerdded gyda'r storîwr, Dafydd Davies-Hughes.
Elfenau cadarnhaol

- Roedd y lleoliad yn wych fel canolbwynt i'r digwyddiadau, gan iddo fod yn hygyrch, yn gyfarwydd i bobl leol ac yn atyniad i dwristiaid. Roedd hefyd yn cynnig awyrgylch apelgar.
- Cafwyd cefnogaeth gan staff yr Ymddiriedolaeth o'r cyfnod trefnu ac yn ystod y digwyddiadau.
- Mynychwyd y digwyddiadau gan drawsdoriad eang iawn o bobl - ymwelwyr a phobl leol, Cymraeg a di-Gymraeg ac o fabanod i bobl yn eu 80au.
- Arweinwyd gweithgareddau a sesiynau gwych gan yr holl gyfrannwyr a oedd yn cynnig cyfleoedd rhyngweithiol ac atyniadol i bobl leol ac ymwelwyr i ddysgu am hanes lleol a threftadaeth.
- Technegau marchnata eang ac amrywiol llwydiannus, gyda rhai mynychwyr wedi clywed trwy dderbyn pamffledi o'r ysgol, rhai wedi gweld pamffledi mewn manau cyhoeddus ac eraill wedi gweld gwybodaeth ar y wê.

- Bu niferoedd uwch na'r disgwyl o gyfranogwyr yn rhan helaeth o'r digwyddiadau.

Elfenau negyddol

- Niferoedd isel wedi mynychu'r daith gerdded dan arweiniad Dafydd Davies-Hughes.

Blaenau Ffestiniog

Ebrill 23 a 24, 2019

Ym Mlaenau Ffestiniog roedd y digwyddiadau yn ymwneud a'r ardal a'i pherthynas â chwareli. Cynhaliwyd weithdy celf i deuluoedd gyda Sian Owen yn CellB a gweithdy ac arddangosfa gan Remy Dean yn ogystal â sesiwn archwilio mapiau yn Llyfrgell Blaenau Ffestiniog.
Oherwydd amgylchiadau a oedd allan o reolaeth y partneriaid a'r cydgordiwr, sef tân yn ardal Blaenau Ffestiniog, bu rhaid gohurio'r digwyddiadau ar Ebrill 23 felly cynhaliwyd yr holl ddigwyddiadau ar Ebrill 24.

Elfenau cadarnhaol

- Bu nifer uchel o gyfranogwyr i weithdy celf llechi Sian Owen yn CellB. Roedd rhan helaeth o'r cyfranogwyr yn blant 6 i 14 oed.
- Techneg marchnata o dargedu ysgolion yr ardal ehangach wedi gweithio, gyda rhan helaeth o'r cyfranogwyr wedi clywed am y gweithdy drwy dderbyn pamffled o'r ysgol.
- Roedd CellB yn leoliad addas iawn gan iddo fod yn leoliad hygyrch, yn boblogaidd ymysg teuluoedd lleol, yn cynnig gwagle mawr, addas i weithdy yn ogystal â chael chaffi ble roedd yn bosib i rieni ymlacio tra'n gwylio eu plant yn cymryd rhan.
- Dilyniant uchel ar y wê gan CellB wedi sicrhau na chafodd y newidiadau yn y rhaglen effaith negyddol ar niferoedd y cyfranogwyr.

Elfenau negyddol

- Doedd Llyfrgell Blaenau Ffestiniog ddim yn leoliad delfrydol gan ei fod wedi'i leoli tu draw i'r stryd fawr ac i ffwrdd o ganolfan masnachol a diwylliannol y dref.
- Roedd ymdeimlad dadgysylltiedig a'r gymuned yn y Llyfrgell, a mynegodd staff y Llyfrgell nad oedd y Llyfrgell yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan bobl leol.
- Cafwyd niferoedd isel o fynychwyr i weithdy Remy Dean ac i agoriad ei arddangosfa. Roedd agoriad arddangosfa Remy Dean wedi cael ei amserlennu gan Swyddog Celfyddydau Gweledol Cyngor Gwynedd ar ran y Llyfrgell cyn y trefnwyd Pop-Yp y Pobl. Er hyn ni chyfrannodd y Swyddog Celfyddydau Gweledol tuag at farchnata'r digwyddiad.
- LleChi Cymru wedi methu ac arwain Sesiwn Mapio fel cynigwyd ganddynt ar gyfer amserlen Pop-Yp y Bobl. Roedd hyn wedi siomi mynychwyr oedd wedi dod i gymryd rhan yn y sesiwn.

Tywyn

Ebrill 25 a 26, 2019

Roedd y digwyddiadau yn Nhywyn yn ffocysu ar hanes yr ardal. Bu cydweithio gydag Eglwys Sant Cadfan i gynnal taith gerdded archeolegol o amgylch y dref, cynhaliwyd un digwyddiad i blant yng ngorsaf drenau Tywyn Wharf a digwyddodd weddill y digwyddiadau yn Llyfrgell y dref.

Elfenau cadarnhaol

- Roedd Gorsaf Drenau Tywyn Wharf, sy'n rhan o Reilffordd Talyllyn, yn leoliad addas gan ei fod yn hygyrch, yn gyfarwydd i bobl leol, yn atyniad poblogaidd â thwristiaid ac yn ganolfan prysur.
- Roedd rheolwyr Rheilffordd Talyllyn yn gefnogol dros ben o'r digwyddiad ac wedi cynnig Gorsaf Tywyn Wharf fel lleoliad yn ddi-dâl.
- Roedd Llyfrgell Tywyn yn leoliad addas ar gyfer y digwyddiadau gan iddo fod wedi'i leoli yng nghanol y dref ac yn ganolfan boblogaidd ymysg pobl leol o ystod eang o oedrannau.

- Roedd staff Llyfrgell Tywyn yn gymwynasgar a chefnogol o'r digwyddiadau o gychwyn y cyfnod cynllunio ymlaen.
- Arweinwyd gweithgareddau a sesiynau gwych gan yr holl gyfrannwyr a oedd yn cynnig cyfleoedd arloesol a rhyngweithiol i bobl leol ac ymwelwyr ddysgu am hanes lleol a threftadaeth.
- Mynychwyd rhan helaeth o'r digwyddiadau gan gyfranogwyr o ystod eang o oedrannu, gyda phlant ifanc a phobl hŷn yn cymryd rhan ac yn cyd-ymddiddori.
- Mynegodd Ficer ac aelodau Eglwys Cadfan Sant, Tywyn, eu gwerthfawrogiad fod Pop-Yp y Pobl wedi cynnwys yr Eglwys fel rhan o'r daith gerdded hanesyddol ac archeolegol, wedi'i arwain gan Rhys Mwyn, yn yr amserlen.
- Roedd dwyieithrwydd yr holl ddigwyddiadau yn Nhywyn wedi golygu fod pobl Cymraeg a di-Gymraeg wedi gallu mwynhau a chymryd rhan gyda'u gilydd, ac fod diwylliant Cymraeg a Chymreig wedi gallu cyrraedd cynulleidfa newydd.
- Technegau marchnata eang wedi bod yn effeithiol, gan i gyfranogwyr deithio'n bell er mwyn mynychu'r digwyddiadau. Enghraifft o hyn oedd teulu o'r Bala, a fynychodd sesiwn stori a chwedlau Mair Tomos Ifans, ar ôl gweld pamffled yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Y Bala.
- Bu niferoedd uwch na'r disgwyl o gyfranogwyr yn rhan helaeth o'r digwyddiadau.

Elfenau negyddol

- Niferoedd isel o blant o Ysgol Penybryn, sef ysgol gynradd Tywyn, wedi mynychu'r digwyddiadau i blant a'u teuluoedd, er gwaetha'r marchnata a dargedodd deuluoedd a oedd yn bwydo'r ysgol gynradd yn benodol.

## Marchnata

Cafwyd Raymond Jones o gwmni dylunio Imbyll i ddylunio deunydd marchnata i'w argraffu ac i'w rannu yn ddigidiol. Crewyd bamffled A4 dwyochrog, dwyieithog, lliw llawn a oedd yn cynnwys amserlen ddigwyddiadau llawn Pop-Yp y Bobl yn y bedair ardal yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol am gefndir y cynllun a chyfeiriadau er mwyn cael mwy o wybodaeth. Hefyd crewyd fersiwn Cymraeg a Saesneg o boster A3 lliw llawn a oedd yn hysbysebu'r digwyddiadau yn y bedair ardal ond nid yn cynnwys amserlen. Gweler y dyluniadau terfynol ar y dudalen olaf. Argraffwyd 2000 o bamffledi a 60 o bosteri A3 a dosbarthwyd yr holl ddeunydd.

Cysylltwyd ag 8 papur bro yng Ngwynedd ar gyfer cynnwys hysbyseb, i gyd yn nalgylch neu mewn dalgylchoedd cyfagos i ddigwyddiadau Pop-Yp y Bobl. Oherwydd dyddiadau cau amrywiol y papurau bro, cafwyd hysbyseb ar ffurf poster Pop-Yp y Bobl yn y papurau bro canlynol yn unig:
Llais Ardudwy (Harlech)
Yr Wylan (Penrhyndeudraeth)

Gwnaed y penderfyniad i wneud rhan helaeth o'r marchnata 'o law i law' drwy dargedu ysgolion cynradd ym mhedair ardal digwyddiadau Pop-Yp y Bobl. Mae hyn oherwydd fod cyrhaeddiad potensial ysgolion cynradd yn ddihafal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Ngwynedd. Dosbarthwyd bamffed i holl ddisgyblion yr ysgolion cynradd canlynol:
Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen
Ysgol Gynradd Llanrug
Ysgol Gynradd Llanbedrog
Ysgol Foel Gron, Mynytho
Ysgol Pont y Gôf, Botwnnog

Ysgol Crud y Werin, Aberdaron
Ysgol Gynradd Maenofferen, Blaenau Ffestiniog
Ysgol Manod, Blaenau Ffestiniog
Ysgol Gynradd Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog
Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd
Ysgol Penybryn, Tywyn
Rhannwyd bamffledi â myfyrwyr TGAU a Chweched Dosbarth sy'n astudio Celf a Dylunio yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, hefyd.

Rhannwyd bosteri a phamffledi mewn mannau cyhoeddus, megis siopau, canolfanau, llyfrgelloedd a bwytai yn ogystal â mannau sydd yn boblogaidd ymysg twristiaid, megis traethau a chanolfanau ymwelwyr yn nalgylchoedd y pedair lleoliad.

O ran marchnata ar y wê, digwyddodd nifer o weithrediadau. Cyn y cyfnod gweithredu, anfonwyd copi digidol o'r pamffled, a oedd yn cynnwys yr amserlen llawn, dros ebost i nifer o sefydliadau a chymdeithasau oedd â chynulleidfaoedd potensial. Hyrwyddodd gyfrifon gwefanau cymdeithasol Arloesi Gwynedd Wledig a Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd y digwyddiadau cyn ac yn ystod y cyfnod gweithredu. Rhannwyd y poster a'r pamffled yn ddigidol â nifer o grwpiau cymunedol ar-lein, megis '*What's on in Tywyn*' ar Facebook, sydd â 1600 aelod, ac ar wefanau lleoliadau a/neu sefydliadau oedd yn gysylldiedig a'r digwyddiadau megis CellB ym Mlaenau Ffestiniog a thudalen Plas yn Rhiw ar wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Roedd gwefanau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r digwyddiadau yn ystod y cyfnod gweithredu, gyda Cyfuno Gwynedd yn defnyddio Instagram i bostio diweddariadau o'r digwyddiadau fel yr oeddynt yn digwydd.

Yn ystod yr amser pan roedd digwyddiadau Pop-Yp y Bobl yn digwydd mewn lleoliadau, gosodwyd arwyddion mawr lliwgar ar y stryd a oedd yn cyfeirio mynychwyr ac yn ennyn diddordeb ymysg cynulleidfaoedd potensial. Roedd yr arwyddion yma yn parhau ag arddull marchnata'r prosiect er mwyn cadw cysondeb.

Cafwyd tîm o wneuthurwyr ffilm, o dan arweiniad Dewi Fôn Evans, yn ffilmio digwyddiadau amrywiol a oedd yn rhan o Pop-Yp y Bobl er mwyn creu ffilm fer a fydd yn drosolwg a chofnod byrlymus, hwyliog ac apelgar o'r hyn a ddigwyddodd. Cafwyd cyfweliadau gyda phartneriaid yn ogystal a chyfranogwyr a fynychodd y digwyddiadau. Bydd y ffilm fer yn cael ei ddefnyddio fel cofnod o ddigwyddiadau Pop-Yp y Bobl ac yn adnodd ar gyfer y dyfodol os byddai prosiect Pop-Yp y Bobl yn cael ei efelychu.

**Allbynnau**
Nifer o weithrediadau rhannu gwybodaeth / gweithgareddau marchnata, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth: 33
Ffilm, posteri, pamffledi, amserlenni digidol, erthyglau ar facebook (Arloesi Gwynedd Wledig, CellB a grŵpiau cymunedol ar facebook), rhaniadau ar facebook (Arloesi Gwynedd Wledig a gan unigolion ar grŵpiau megis canghenau lleol o'r Urdd), gwefan Plas yn Rhiw, ebyst personol i grwpiau (Cymdeithasau Hanes Blaenau Ffestiniog a Tywyn), nifer o bostiadau gan gyfrif instagram Rhwydwaith Cyfuno, cylchlythyrau Menter Fachwen a Llyfrgelloedd Gwynedd, papurau bro Llais Ardudwy ac Yr Wylan. Rhannwyd y posteri a'r pamffledi â chanolfanau,

llyfrgelloedd, siopau, parciau gwyliau, hotels, caffis a bwytai yn nalgylchoedd y pedair lleoliad yn ogystal â 11 ysgol cynradd ac un ysgol uwchradd ar draws y Sir.

Nifer y rhanddeiliaid wedi'i ymgysylltu yn ystod y cynllunio a'r gweithredu: 11
Menter Fachwen, Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Plas yn Rhiw), Llyfrgell Blaenau Ffestiniog, Llyfrgell Tywyn, Cymdeithas Hanes Tywyn, Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog, Llechi Cymru, Criw Celf Bach Aberdyfi, Rheilffordd Tal-y-Llyn, Asiantaeth Ynni Severn Wye, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Nifer y cyfranogwyr a gefnogir yn ystod y digwyddadau:
Deiniolen - 56
Y Rhiw - 81
Blaenau Ffestiniog - 24
Tywyn - 45

Cyfanswm - 206

### Dadansoddiad
Dangosa'r allbynnau uchod fod parodrwydd ymysg rhanddeiliaid lleol, megis asiantaethau, cyrff cyhoeddus a busnesau, i gymryd rhan a chefnogi digwyddiadau cyhoeddus yn eu hardaloedd. Gwelsom fod rhanddeiliaid yn awyddus iawn i gymryd y cyfle i ymgysylltu a'r cyhoedd ar lefel lleol ac i drosglwyddo'r neges eu bod yn chwarae rhan yn niwylliant cymunedol eu hardal.

Stuart Williams, Rheolwr Cyffredinol Rheilffordd Tal-y-Llyn
"We welcomed The People's Pop-Up to use our Narrow Gauge Museum at Tywyn Wharf Station as a venue, free of charge, as we always aim to welcome a wider audience to our locations. Having a Welsh-language event here was an opportunity to strengthen the connection with the local community especially."

Dangosa'r niferoedd o gyfranogwyr fod galw am ddigwyddiadau am ddim i deuluoedd yn ystod gwyliau ysgol a bod diddordeb mewn dysgu am hanes lleol a threftadaeth trwy weithgareddau a'r celfyddydau ymysg pobl o bob oed. Roedd llwyddiant digwyddiadau Pop-Yp y Bobl ym Mhlas yn Rhiw, yn enwedig, yn awgrymu fod cynulleidfa parod yno ar gyfer mwy o ddigwyddiadau o'r fath, a fyddai'n gwneud defnydd o'r niferoedd uchel a'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr sy'n ymweld â'r lleoliad hygyrch ac apelgar yma.

Maent hefyd yn dangos fod teuluoedd ac unigolion yn falch o allu mynychu digwyddiadau sy'n cynnig profiadau newydd a arwenir gan arbenigwyr.
Unigolyn, oed 50+, a fynychodd daith gerdded hanesyddol o amgylch Deiniolen-
"Mi wnes i fwynhau'r weithgaredd oherwydd roeddwn yn gweld y plant sydd yn bresennol yn mwynhau eu hunain. Rwy'n mynychu unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn lleol oherwydd nid wyf yn arbenigwr ar hanes felly mae mynychu gweithgareddau fel hyn yn helpu."

### Sut cyflawnodd y prosiect ei nodau?
Gosododd frîff Prosiect Amgueddfeydd Pop-Yp Gwynedd y nod o gynnig "cyfleoedd i ddod â pobl at ei gilydd mewn sgwrs trwy straeon, celf a gwrthrychau a chodi brwdfrydedd ac ennyn diddordeb am hanes a threftadaeth Gwynedd mewn modd hwyliog." Yn sicr, darparodd y

prosiect nifer o gyfleoedd i ddod â phobl at ei gilydd, yn ymwelwyr a phobl leol. Dangosodd y gynulleidfaoedd amrywiaeth mewn oedran, gyda chyfranogwyr hŷn yn mynychu'r un digwyddiadau a phlant ifanc mewn nifer o achosion, megis Sesiwn Caneuon Shanti gydag Iwan Huws, Sesiwn Stori a Chwedlau gyda Mair Tomos Ifans a'r Daith Archeolegol a Hanesyddol o amgylch Tywyn gyda Rhys Mwyn.

Roedd nifer o gyfleon i gyfranogwyr drafod a sgwrsio. Yn ystod y cyflwyniad gan Gruffydd Jones o'r Llyfrgell Genedlaethol cafwyd trafodaethau am hanes lleol a mapiau hanesyddol o Dywyn ac yn ystod gweithdai celf Catrin Williams yn Y Rhiw, roedd teuluoedd cyfan yn trafod hanes a chwedloniaeth Ynys Enlli. Daeth y perfformiwr, Gwilym Bowen Rhys, i ymgorffori Brenin Enlli a oedd yn sbardun i deuluoedd allu ymgysylltu'n uniongyrchol â hanes lleol yr ardal drwy holi a dysgu. Cynnigiodd hyn oll gyfleoedd i gyfranogwyr ddysgu mewn ffordd hygyrch a hwyliog.

Nod arall ynghlwm a'r prosiect oedd gweithio gyda nifer o sefydliadau gwahanol ar draws Gwynedd. Cyflawnwyd y nod drwy ddefnyddio nifer o leoliadau amrywiol i gynnal digwyddiadau ynddynt a gweithio'n agos gyda'r sefydliadau ynghlwm a'r lleoliadau er mwyn hyrwyddo a sicrhau profiadau cadarnhaol i gyfranogwyr. Cynigiodd y prosiect gyfle i ddatlbygu ar y berthynas sydd gan Rwydwaith Cyfuno Gwynedd gyda sefydliadau yn barod, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CellB, yn ogystal â chreu perthynasau newydd, megis Rheilffordd Talyllyn.

### Beth weithiodd yn dda?

Gweithiodd yr amserlen yn dda oherwydd yr amrywiaeth o ddigwyddiadau yr oedd yn ei gynnig. Roedd yna amrywiaeth o gyfryngau, themau a lleoliadau. Roedd y cymunedau eu hunain wedi gael eu hystyried yn ddwys tra cynlluniwyd yr amserlen ac felly roedd y digwyddiadau wedi cael eu teilwra'n addas i bob cymuned gan weithio gydag unrhyw weithgareddau cymunedol oedd yn digwydd yn barod, ble roedd yn bosib. Roedd rhai o'r lleoliadau a ddenfyddwyd yn ganolfanau i dwristiaid o du hwnt i Gymru, megis Plas yn Rhiw a Gorsaf Drenau Tywyn Wharf, felly roedd cysidro hyn tra'n amserlennu yn angenrheidiol. O ganlyniad i'r pwyntiau uchod, roedd amrywiaeth yng nghyfrwng iaith y digwyddiadau gyda rhai digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn ddwyieithog.

Bu cyfathrebu clir gyda'r rhanddeiliaid yn ystod y cynllunio a'r cyfnod gweithredu, a sicrhaodd hyn na fu unrhyw drafferthion na newidiadau i'r amserlen arwahân i amser un gweithgaredd yn CellB a newidiwyd i'r diwrnod canlynol oherwydd tân ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd rhan helaeth o'r lleoliadau yn hollol addas i'r pwrpas, yn hygyrch ac yn hysbys i'r cyhoedd. Bu hefyd cyfathrebu clir rhwng y partneriaid, sef y Cydgordiwr, cynrychiolydd Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd a chynrychiolydd Arloesi Gwynedd Wledig. Gan mai rhwng y tri unigolyn hyn fu trafodaethau trwy rhan helaeth o'r cynllunio a'r gweithredu, nid oedd gormod o leisiau partneriaid; cyfrannodd hyn tuag at rediad esmwyth y prosiect.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, roedd y Cydgordiwr a'r cynrychiolydd o Rwydwaith Cyfuno Gwynedd yn parhau i sicrhau cyfathrebiad cadarn a chyson gyda'r rhanddeiliaid drwy fynychu'r holl ddigwyddiadau. Roedd presenoldeb partner a Chydgordiwr yn y digwyddiadau yn rhoi hyder i randdeiliaid fod digwyddiadau am redeg yn esmwyth.

Roedd rhan helaeth o'r cyfrannwyr i'r amserlen, a oedd yn cynnwys ymarferwyr creadigol, arbenigwyr hanesyddol a cynrychiolwyr asiantaethau, wedi darparu digwyddiadau neu weithgareddau o safon uchel. Defnyddwyd gyfrannwyr profiadol a oedd yn atynnu cynulleidfa, ble bo modd. Ond cynigiodd yr amserlen hefyd, y cyfle i roi platfform i arbenigwyr yn eu maes sydd llai adnabyddus, allu rhannu eu arbenigedd, eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd. Roedd hefyd yn gyfle i gyflwyno cyfrannwyr a chynulleidfaoedd newydd i'w gilydd.
Rhiant a fynychodd ddigwyddiadau yn Y Rhiw gyda'i phlant-
"I enjoyed the events because the interaction between the people running the event and the children and adults taking part was brilliant."

Mae nifer o enghreifftiau yn ystod y digwyddiadau o gyfrannwyr yn defnyddio eu harbenigedd, boed yn adrodd straeon, yn gelf neu yn darlithio, i gyflwyno treftadaeth, hanes a hunaniaeth mewn ffurfiau annisgwyl a chwbl hygyrch i gynulleidfaoedd newydd. Er enghraifft, yn ystod y Daith Gerdded Hanesyddol ac Archeolegol, roedd Rhys Mwyn yn crybwyll hanes hynafol a diweddar Tywyn mewn arddull sionc, diddorol ac addas i blant ac oedolion.

## Beth ddylai ei wneud yn wahanol pe bai'r prosiect yn cael ei ailadrodd?

### Amseru

Cychwynodd y Cydgordiwr yn y swydd 7 wythnos cyn y dyddiadau a benderfynwyd arnynt eisioes ar gyfer cynnal digwyddiadau Pop-Yp y Bobl, a oedd yn gyfnod tynn i gyflawni'r amserlennu a'r hywyddo angenrheidiol. Cwblhawyd yr amserlennu mewn 3 wythnos. Roedd hyn yn amser digonnol ond byddai mwy o amser wedi galluogi creu amserlen â mwy o ddigwyddiadau a lleoliadau. Er enghraifft, yn wreiddiol bu'r bwriad o ymestyn y cynllun i bum ardal, a fyddai wedi cynnwys Dyffryn Nantlle drwy gydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Ond oherwydd cyfathrebiad araf gyda'r Ymddiriedolaeth Archeolegol, bu rhaid symud ymlaen gyda Pop-Yp y Bobl heb gynnwys Dyffryn Nantlle.
Crewyd y deunydd marchnata mewn pythefnos a oedd yn amser digonnol ar gyfer yr elfen yma. Gadawyd bythefnos ar gyfer hyrwyddo'r digwyddiadau ar draws Wynedd, oedd ddim yn amser digonnol i hyrwyddo mor drylwyr ac oedd y cydgordwr wedi gobeithio. Byddai caniatau 4 wythnos i hyrwyddo wedi galluogi trylwyrdeb marchnata yn lleol yn ogystal â marchnata yn genedlaethol. Un enghraifft o fwriad marchnata ni chafodd ei wireddu oherwydd diffyg amser oedd sgwrs am Pop-Yp y Bobl ar Radio Cymru.

### Marchnata

Bu rhwystredigaeth ar gychwyn y broses o weithio gyda'r Dylunydd i greu'r deunydd marchnata, gan nad oedd yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer y deunydd a'r partneriaid a'r Cydgordiwr, er i'r weledigaeth yma gael ei gyfathrebu'n glir a'r Dylunydd oflaen llaw mewn sgwrs ffôn. Byddai Brîff ysgrifenedig i'r Dylunydd gan y Cydgordiwr ar gychwyn y swydd, o bosib, wedi arbed amser a rhwystredigaeth ac wedi bod yn gyfeirnod cadarn i'r Dylunydd. Doedd y dyluniadau cychwynol a gyflwynwyd gan y Dylunydd ddim yn cyfleu naws y digwyddiadau, ddim yn cyflwyno'r wybodaeth yn glir a ni fyddent yn apelio i'r gynulleidfa darged, sef teuluoedd. Roedd y dyluniadau terfynol llawer agosach at y nod ond ddim yn ddelfrydol. Ond yn anffodus, nid oedd amser yn caniatau mwy o newidiadau. Pe bai mwy o amser wedi bod ar gael, yna byddai cyfnod o ymchwilio a chymharu gwaith gan ddylunwyr lleol eraill wedi bod o fudd er mwyn sicrhau cydweithio gyda'r Dylunydd mwyaf addas ar gyfer y cynllun.

Gwnaed y penderfyniad i beidio cael deunydd marchnata a oedd yn hyrwyddo digwyddiadau yn y lleoliadau yn unigol, megis poster ar gyfer digwyddiadau Pop-Yp y Bobl yn Neiniolen. Yn nês at gyfnod gweithredu'r digwyddiadau, gwelwyd yr angen am y math yma o ddeunydd marchnata, er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth yn ddigidol yn gyflym i gynulleidfaoedd potensial mewn ardaloedd penodol. Crewyd dyluniadau syml gan Rwydwaith Cyfuno Gwynedd a oedd yn ateb y galw yma, ond byddai wedi bod o fudd i gael deunydd marchnata a oedd yn hyrwyddo digwyddiadau yn y lleoliadau yn unigol wedi'i creu gan y Dylunydd o'r cychwyn.

Bu Deiniolen yn dalcen caled o ran ymgysylltu â theuluoedd ifanc ac roedd y niferoedd a fynychodd y digwyddiadau i blant yn benodol, megis Sesiwn Stori gyda Leisa Mererid, yn siomedig. Roedd hyn yn annisgwyl i'r partneriaid a'r Cydgordiwr oherwydd lleoliad hygyrch a chyfarwydd y digwyddiad, sef yr ysgol gynradd, a'r gwaith marchnata a wnaethpwyd drwy dargedu teuluoedd a oedd yn bwydo'r ysgol gynradd. Pe byddai'r prosiect yn cael ei ailadrodd yn Neiniolen, bydd angen meddwl tu hwnt i'r ysgol gynradd wrth farchnata. Byddai ymchwil i mewn i grwpiau rhieni ai-lein, rhwydweithiau cefnogi rhieni a chlybiau 'ti a fi' cyfagos wedi bod o fudd, yna marchnata'r digwyddiadau i blant yn benodol ymysg y grwpiau yna.

### Lleoliadau

Er fod rhan helaeth o leoliadau a ddefnyddwyd yn ystod Pop-Yp y Bobl wedi bod yn addas, roedd Llyfrgell Blaenau Ffestiniog yn eithriad. Mae ei leoliad daearyddol yn anfantais, gan ei fod wedi'i leoli ar stryd gefn, mewn ardal breswyl, tawel ac i ffwrdd o ardal brysur, masnachol y dref. Doedd yna ddim ymdeimlad o gyswllt rhwng y Llyfrgell a'i staff a thrigolion Blaenau Ffestiniog, gyda'r staff yn gwneud sylwadau fod neb yn mynychu digwyddiadau arferol a drefnir gan y Llyfrgell. Pe byddai'r prosiect yn cael ei ailadrodd ym Mlaenau Ffestiniog, byddai ailgysidro'r defnydd o'r Llyfrgell yn fuddiol, gan, yn hytrach, wneud mwy o ddefnydd o CellB, sydd yn leoliad sy'n denu niferoedd uchel o drigolion, yn ganolfan byrlymus a chyfredol ac, o ran marchnata, â chyrhaeddiad eang.

### Pa wersi sydd wedi'u dysgu?

Dangosa ganlyniad llwyddiannus Pop-Yp y Bobl fod gan bobl Wynedd ac ymwelwyr â Wynedd ddiddordeb mewn digwyddiadau diwylliannol a nad yw cysyniadau o hanes lleol, a threftadaeth yn codi ofn, os ydynt yn cael eu cyflwyno mewn arddulliau cyffrous, hwyliog a hygyrch. Mae rhoi platffom i gyfrannwyr croesawgar, hyblyg a gwybodus, sy'n barod i arwain yn ddwyieithog a gweithio â chyfranogwyr o bob oed,  yn ffordd arloesol o ennyn balchder mewn milltr sgwâr a hybu hunaniaeth leol.

Mae cael gweledigaeth glir o ddelwedd i brosiect fel hyn yn holl bwysig o berspectif marchnata ac mae angen amser i benderfynu ar y ddelwedd yna a darganfod dylunydd sy'n rhannu'r un weledigaeth.

Bu tanwariant yng nghyllideb Pop-Yp y Bobl, yn bennaf yn y gyllideb ar gyfer talu am ddigwyddiadau. Amserlenwyd gymaint o ddigwyddiadau a oedd yn bosib yn yr amser oedd ar gael a byddai mwy o amser i amserlennu wedi galluogi trefnu mwy o ddigwyddiadau a defnydd o fwy o leoliadau

Costau Amgueddfeydd Pop-Yp (Cyllideb gweithgareddau+lleoliadau = £6700)

| **Deiniolen** | | **Rhiw** | | **Blaenau** | | **Tywyn** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gwaun Gynfi | £62.50 | 2 weithdy celf Coron Enlli - Catrin Williams | £500.00 | Gweithdy Sian Owen | £250.00 | 2 sesiwn Mair Tomos Ifans | £250.00 | |
| Leisa Mererid | £100.00 | Plas yn Rhiw | £270.00 | Gweithdy Remy Dean | £100.00 | Rhys Mwyn | £120.00 | |
| Gareth Roberts | £150.00 | Iwan Huws | £300.00 | CellB | £200.00 | | | |
| Display Boards | £756.00 | Gwilym Bowen Rhys | £300.00 | | | | | |
| | | | | | | | | Cyfanswm gwariant |
| | £1068.50 | | £1370.00 | | £550.00 | | £370.00 | £3358.50 |

Gwariant Marchnata

| Papurau Bro | |
|---|---|
| Yr Wylan | £70.00 |
| Llais Ardudwy | £50.00 |
| | |
| Deunydd marchnata | |
| Dylunio- Imbyll | £310.00 |
| Argraffu WOJones (angen cadarnhau) | £246.92 |
| Arfraffu 1000 arall (inc vat) | £270.00 |
| Ffilm | £1332.00 |
| | |
| | £2008.92 |


POP-YP Y BOBL
Ebrill 15fed–26ain
Deiniolen - Y Rhiw - Blaenau Ffestiniog - Tywyn
Digwyddiadau i'r teulu oll yn ystod gwyliau'r Pasg
MYNEDIAD AM DDIM!
Canu!
Hwyl a Bwrlwm!
Teithiau Cerdded!
Hybu Hunaniaeth!
Stori a Chwedlau!
Gweithdai Celf
Ffotograffiaeth
Hanes Lleol
Dathlu Cymuned!
dewch i ymuno â ni yn yr hwyl!
Am ragor o fanylion, dilynwch :
Arloesi Gwynedd Wledig Cyfuno Gwynedd Fusion Cyfuno Gwynedd Fusion
Neu cysylltwch: Rhian Hughes (01766) 515 946
Nuclear Decommissioning Authority
Llywodraeth Cymru Welsh Government


THE PEOPLE'S POP-UP
April 15th–26th
Deiniolen - Y Rhiw - Blaenau Ffestiniog - Tywyn
Events for the whole family during the Easter holiday
ALL EVENTS ARE FREE!
Music
Fun and Excitement!
Walking Tours
Promoting Identity!
Story Telling
Art Workshops
Photography
Local History
Celebrating Community!
join in the fun!
For more details, follow:
Arloesi Gwynedd Wledig Cyfuno Gwynedd Fusion Cyfuno Gwynedd Fusion
Or contact: Rhian Hughes (01766) 515 946
Nuclear Decommissioning Authority
Llywodraeth Cymru Welsh Government




menter fachwen
ICT
Garddwriaeth
menter fachwen
Horticulture








Pop-Yp y
Bobl!
THE PEOPLE'S POPUP
Yma heddiw!
Here today!






STYDI AWDRY STUDY


BUILDINGS
POP-yP y
BOBL
THE PEOPLE'S POP-UP
yma
heddiw!
Here
today!